Medi 2017

Disgrifiad Swydd

Swyddog Datblygu Cymraeg Byd Busnes (x10)

A hoffech weithio gydag un o'r prif fudiadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru?

Mae Mentrau Iaith Cymru yn lansio gwasanaeth newydd i gefnogi busnesau bach a chanolig (SME) i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Gweithredir y prosiect cyffrous hwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a fel rhan o hyn, rydym yn chwilio am 10 o swyddogion datblygu i weithredu'r prosiect ym mhob cwr o Gymru (Gweler y rhestr o ardaloedd yn yr atodlen).

Mae'r swyddi hyn yn gyffrous ac yn galw am unigolion hyblyg, brwdfrydig a hyderus sydd yn gallu meistroli nifer o elfennau amrywiol sydd ynghlwm â'r gwaith o ddylanwadu a pherswadio busnesau sector breifat i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Bydd gofyn gallu teithio i amryw o leoliadau ledled Cymru yn ôl y galw.

Posibilrwydd o weithio yn swyddfeydd amryw o Fentrau Iaith ar draws Cymru (gweler yr atodlen am fwy o wybodaeth)

Prif Feysydd Gwaith y Swyddogion Datblygu Busnes:

- Cyswllt lleol wyneb yn wyneb gyda busnesau
- Cynnig cefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion busnesau unigol
- Gweithredu twlcit sector breifat (a ddatblygir ar y cyd â Llywodraeth Cymru) a chadw cofnod o gynnydd
- Cydlynu negeseuon strategol lleol (ar y cyd â siambrau masnach, Busnes Cymru, BIDs, Comisiynydd ayyb)
- Cynnal digwyddiadau busnes lleol a phrosiectau hyrwyddo

Dyletswyddau

- Sefydlu perthynas gyda busnesau bach lleol a SMEs er mwyn adnabod busnesau sydd yn awyddus i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
- Gweithio gyda busnesau sydd wedi eu hadnabod fel rhai i'w targedu er mwyn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn y busnes
- Sicrhau cyswllt rheolaidd gyda'r busnesau a gweithredu system monitro rheolaidd i'r gwaith gan ddilyn proses monitro a gwerthuso sydd wedi sefydlu yn genedlaethol rhwng Mentrau Iaith Cymru a Llywodraeth Cymru
- Cyfrannu at gyfeiriad strategol y cynllun trwy Rhwydwaith Cenedlaethol Swyddogion Cymraeg i Fusnes
- Cynnal Fforwm Cymraeg i Fusnes yn lleol er mwyn cydlynu negeseuon strategol yn lleol ymysg ymarferwyr sydd yn gweithio gyda busnesau o

ddydd i ddydd (megis swyddogion Busnes Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau Masnach ac unrhyw sefydliadau perthnasol ychwanegol)
- Cynnal digwyddiadau i fusnesau bach a chanolig er mwyn hyrwyddo manteision y Gymraeg ym myd busnes (megis Brecwast Busnes ayyb)
- Cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg ym myd busnes gan drefnu digwyddiadau ac ymgyrchoedd lleol i hyrwyddo'r negeseuon
- Cyfrannu at gynllunio ymgyrchoedd cenedlaethol trwy sicrhau adborth i Grŵp Marchnata Cenedlaethol Cymraeg i Fusnes
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant a chyfarfodydd perthnasol
- Cadw cofnodion drylwyr o gynnydd yn y gwaith gan ddilyn prosesau cenedlaethol a gytunwyd rhwng Mentrau Iaith Cymru a Llywodraeth Cymru
- Creu astudiaethau achos yn ôl y galw i dystiolaethu
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau a gofynion eraill rhesymol

Sgiliau / Profiad hanfodol

- Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol gyda pherchnogion busnesau a swyddogion proffesiynol yn y maes busnes
- Y gallu i ddylanwadu a pherswadio yn effeithiol, yn enwedig gydag unigolion busnes proffesiynol
- Y gallu i drefnu digwyddiadau cyhoeddus yn effeithiol
- Yn drefnus ac effeithiol, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol o safon uchel.
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol gan ddatblygu syniadau a strategaethau newydd.
- Y gallu i gydweithio ag eraill ac ennyn diddordeb a brwdfrydedd.
- Sgiliau cyfrifiadurol da.
- Yn meddu ar drwydded yrru lân a chyfredol a defnydd o drafnidiaeth eich hunan.
- Yn rhugl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) - ar lafar ac ysgrifenedig.

Sgiliau / profiad dymunol-

- Profiad o reoli neu rhedeg busnes
- Profiad o reoli cyllid/ cyllidebau
- Profiad o gydlynu gweithgareddau
- Profiad o drefnu cynadleddau a/ neu gydlynu cyfarfodydd
- Profiad o ysgrifennu adroddiadau
- Profiad a dealltwriaeth o waith y sector breifat yng Nghymru
- Dealltwriaeth o waith MIC, Mentrau Iaith a phartneriaid sy'n ymwneud â'r maes hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sector breifat
- Dealltwriaeth o bolisi iaith a'r maes cynllunio iaith yng Nghymru

Diwedd